

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 787 (Cy.68)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - - 9 Mawrth 2007
am 6am ar 2 Ebrill
Yn dod i rym - - 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(5), 3, 5(1) a (2), 6, 8(3), 10 a 79(3) o Ddeddf Iechyd 2006⁽¹⁾ a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddi a chan adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993⁽²⁾, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 a deuant i rym am 6am ar 2 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio pan fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall) —

mae “annedd breifat” (“*private dwelling*”) yn cynnwys llety preswyl hunangynhwysol ar gyfer defnydd dros dro neu wyliau ac unrhyw garej, tŷ allan neu strwythr arall at ddefnydd personau sy'n byw yn yr annedd yn unig;

mae “cartref gofal” (“*care home*”) i'w dehongli yn unol ag adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000⁽³⁾;

ystyr “cerbyd preifat” (“*private vehicle*”) yw cerbyd a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf at ddibenion preifat y person sy'n berchen arno neu sydd â hawl i'w ddefnyddio nad yw'n deillio o daliad neu ymgymeriad i dalu am gael defnyddio'r cerbyd neu ei yrrwr ar gyfer taith benodol.

ystyr “dynodedig” (“*designated*”) yw wedi'i ddynodi yn ysgrifenedig gan y person sydd â gofal y fangre;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd 2006;

ystyr “hosbis i oedolion” (“*adult hospice*”) yw sefydliad, a'i ddiben yn llwyr neu ei brif ddiben yw darparu gofal lliniarol i bersonau heb fod o dan 18 oed sy'n preswyllo yno ac sy'n dioddef o glefyd sy'n gwaethygu ac sydd yn ei gyfnodau olaf;

(1) 2006 p.28.
(2) 1993 p.38.
(3) 2000 p.14.

ystyr “uned iechyd meddwl” (“*mental health unit*”) yw sefydliad neu ran o sefydliad a'i brif ddiben neu ei phrif ddiben yw darparu triniaeth neu nyrsio (neu'r ddau) i bersonau sy'n dioddef o anhwylder meddwl fel y'i diffinnir yn adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(4).

Ystyr mangre “gaeedig” a “sylweddol gaeedig”

2.—(1) At ddibenion adran 2 o'r Ddeddf, mae mangre yn gaeedig os oes ganddi nenfwd neu do, ac os yw hi heblaw am ddrysau, ffenestri a choridoriau, yn gwbl gaeedig naill ai'n barhaol neu dros dro.

(2) At ddibenion adran 2 o'r Ddeddf, mae mangre yn sylweddol gaeedig os oes ganddi nenfwd neu do ac os yw cyfanswm arwynebedd unrhyw agoriadau yn y waliau yn llai na hanner arwynebedd y waliau, gan gynnwys strwythurau eraill sy'n cyflawni diben waliau.

(3) Wrth benderfynu arwynebedd yr agoriadau at ddibenion paragraff (2), ni ddylid cymryd unrhyw gyfrif o agoriadau y mae drysau, ffenestri neu ffitiadau eraill ynddynt y gellir eu hagor neu eu cau.

(4) Yn y rheoliad hwn mae “to” yn cynnwys unrhyw strwythur gosodedig neu symudol neu ddyfais osodedig neu symudol.

Esemptiadau i fangreoedd di-fwg

3.—(1) Nid yw annedd breifat yn ddi-fwg ac eithrio unrhyw ran ohoni—

- (a) a rennir gyda mangre arall (gan gynnwys unrhyw annedd breifat arall) neu
- (b) a ddefnyddir yn unig fel lle gwaith heblaw gwaith sy'n cael ei eithrio gan baragraffau (2) neu (3).

(2) Mae gwaith a gaiff ei wneud mewn rhan o annedd a ddefnyddir yn unig fel lle gwaith yn cael ei eithrio o baragraff (1)(b) os nad oes neb (heblaw person sy'n byw yn yr annedd) yn gweithio yn y rhan honno neu'n cael ei wahodd i ddod i'r rhan honno mewn cysylltiad â'r gwaith.

(3) Eithrio o baragraff (1)(b) bob gwaith a gaiff ei wneud yn unig—

- (i) er mwyn darparu gofal personol neu ofal iechyd i berson sy'n byw yn yr annedd;
- (ii) er mwyn cynorthwyo gyda gwaith domestig yr aelwyd yn yr annedd;
- (iii) er mwyn cynnal strwythur neu adeiladwaith yr annedd;
- (iv) er mwyn gosod, arolygu, cynnal neu symud unrhyw wasanaeth a ddarperir i'r annedd er budd y personau sy'n byw ynddi.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6) nid yw'r disgrifiadau canlynol o fangreoedd yn rhai di-fwg —

- (a) ystafelloedd dynodedig i'w defnyddio gan y rhai sy'n 18 oed neu drosodd —
 - (i) mewn cartref gofal;
 - (ii) mewn hosbis i oedolion;
 - (iii) mewn uned iechyd meddwl sy'n darparu llety preswyl ar gyfer cleifion;
- (b) ystafelloedd dynodedig mewn cyfleuster ymchwil neu gyfleuster cynnal profion;
- (c) ystafelloedd gwely dynodedig mewn gwesty, gwesty bach, tafarn, hostel neu glwb aelodau.

(5) At ddibenion paragraff (4) ystyr “ystafell ddynodedig” neu “ystafell wely ddynodedig” yn ôl y digwydd, yw ystafell —

- (a) a gafodd ei dynodi gan y person sydd â gofal y sefydliad o dan sylw yn ystafell lle y caniateir ysmegu;

- (b) y mae ganddi nenfwd ac sydd, heblaw am ddrysau a ffenestri, yn hollol gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o'r llawr i'r nenfwd;
 - (c) nad oes ganddi system awyru sy'n awyru i ran arall o'r fangre (ac eithrio unrhyw ystafelloedd dynodedig neu ystafelloedd gwely dynodedig eraill, yn ôl y digwydd);
 - (ch) nad oes ganddi unrhyw ddrws sy'n agor i fangre ddi-fwg ac nad yw'n cau'n fecanyddol yn union ar ôl ei ddefnyddio; a
 - (d) sydd wedi'i marcio'n glir yn ystafell lle y caniateir ysmygu.
- (6) Nid yw ystafell ddynodedig mewn cyfleuster ymchwil neu gyfleuster gynnal profion yn ystafell ddi-fwg pan fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ymchwil neu ar gyfer cynnal profion sy'n ymwneud â—
- (i) mwg a ollyngir o dybaco a chynhyrchion eraill a ddefnyddir ar gyfer ysmygu;
 - (ii) datblygu cynhyrchion ar gyfer ysmygu gyda llai o berygl o ran tân neu â chynnal profion tân ar ddeunyddiau sy'n ymwneud â chynhyrchion ar gyfer ysmygu;
 - (iii) datblygu cynhyrchion ysmygu neu fferyllol a allai olygu gweithgynhyrchu cynhyrchion llai peryglus ar gyfer ysmygu; neu
 - (iv) rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu.

Cerbydau di-fwg

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau canlynol y rheoliad hwn, rhaid i gerbyd fod yn ddi-fwg os caiff ei ddefnyddio —

- (a) i gludo aelodau o'r cyhoedd neu garfan o'r cyhoedd (p'un ai am dâl neu dan log ai peidio); neu
 - (b) at ddibenion gwaith gan fwy nag un person (hyd yn oed os yw'r personau sy'n ei ddefnyddio at y cyfryw ddibenion yn gwneud hynny ar adegau gwahanol, neu ar adegau ysbeidiol yn unig).
- (2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gerbydau a rhannau o gerbydau sy'n gaeedig.
- (3) Mae cerbyd neu ran o gerbyd yn gaeedig at ddibenion paragraff (2) os oes ganddo ddrysau neu ffenestri y gellir eu hgorchodoni ond nid yw'n gaeedig oni bai bod to drosto yn gyfan gwbl neu'n rhannol.
- (4) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob cerbyd heblaw —
- (a) awyrennau; neu
 - (b) llongau neu hofranlongau y gellid gwneud rheoliadau ar eu cyfer o dan adran 85 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 (p.21) (diogelwch ac iechyd ar longau), gan gynnwys yr adran honno fel y'i cymhwysir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 1(1)(h) o Ddeddf Hofranlongau 1968 (p.59) neu i bersonau ar unrhyw long neu hofrenlong o'r fath; neu
 - (c) cerbydau preifat
- (5) Yn y rheoliad hwn nid yw “to” yn cynnwys unrhyw do a gaiff ei roi o'r neilltu yn gyfan gwbl fel nad yw dros unrhyw ran o gerbydran y caiff personau deithio ynddi.

Arwyddion dim ysmygu: mangreodd di-fwg

5.—(1) At ddibenion adran 6 o'r Ddeddf, rhaid i unrhyw berson sy'n meddiannu mangre ddi-fwg neu'n ymwneud â'i rheoli sicrhau bod arwyddion dim ysmygu sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (2) yn cael eu harddangos yn y fangre honno yn unol â'r gofynion sydd ym mharagraff (3).

- (2) Rhaid i arwydd dim ysmygu —

- (a) fod yn fflat, yn betryal o ran ei siâp ac yn 160 o filimetrau wrth 230 o filimetrau o leiaf o ran ei faint;
 - (b) cynnwys darlun graffeg o sigarét yn llosgi o fewn cylch coch sy'n 85 o filimedrau mewn diamedr o leiaf a chyda bar coch ar draws y cylch sy'n croesi symbol y sigarét;
 - (c) cynnwys y geiriau canlynol — “Mae ysmegu yn y fangre hon yn erbyn y gyfraith / It is against the law to smoke in these premises”.
- (3) Rhaid arddangos arwydd dim ysmegu sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2) mewn lle amlwg wrth neu gerllaw pob mynedfa i fangre ddi-fwg.

Arwyddion dim ysmegu: cerbydau di-fwg

6.—(1) Rhaid i'r person perthnasol o ran cerbyd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 4 sicrhau bod arwyddion dim ysmegu sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (2) yn cael eu harddangos ar y cerbyd yn unol â'r gofynion sydd ym mharagraff (3).

(2) Rhaid i arwydd dim ysmegu gynnwys darlun graffeg o sigarét yn llosgi o fewn cylch coch sy'n 75 o filimedrau mewn diamedr o leiaf a chyda bar coch ar draws y cylch sy'n croesi symbol y sigarét.

(3) Rhaid arddangos arwydd dim ysmegu sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2) mewn lle amlwg ym mhob cerbydran o'r cerbyd, y mae to drosti neu'n rhannol drosti, gan gynnwys cerbydran y gyrrwr.

(4) Ym mharagraff (3) nid yw “to” yn cynnwys to a gaiff ei roi o'r neilltu yn gyfan gwbl fel nad yw dros unrhyw ran o gerbydran y caiff personau deithio ynddi.

- (5) At ddibenion y rheoliad hwn a rheoliad 7, ystyr “person perthnasol” o ran cerbyd di-fwg yw —
- (a) y gweithredydd,
 - (b) y gyrrwr, ac
 - (c) unrhyw berson mewn cerbyd sy'n gyfrifol am drefn neu am ddiogelwch arno.

Dyletswydd i atal ysmegu mewn cerbydau di-fwg

7. Mae'n ddyletswydd ar y person perthnasol o ran cerbyd sy'n ddi-fwg yn rhinwedd rheoliad 4 beri bod person sy'n ysmegu yn y cerbyd yn stopio ysmegu.

Gorfodi: dynodi awdurdodau gorfodi

8.—(1) Dynodir cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn awdurdodau gorfodi at ddibenion Pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae gan bob awdurdod gorfodi swyddogaethau gorfodi o ran y mangreoedd a'r cerbydau sydd o fewn ei ardal.

(3) Os bydd mwy nag un awdurdod gorfodi yn gwneud ymchwiliadau ynglŷn â'r un person o dan y pwerau a roddir gan Bennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf, caiff yr awdurdodau o dan sylw, drwy gytundeb, drosglwyddo'r swyddogaethau gorfodi i un ohonynt neu i unrhyw awdurdod gorfodi arall.

Gorfodi; hysbysiad o gosb

9.—(1) Mae'r ffurfiau hysbysiad o gosb a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn cael eu pennu o ran y tramgwyddau a ddisgrifir ynddynt.

(2) Os bydd newid yn swm cosb benodedig neu swm disgownt neu yn lefel y raddfa safonol, rhaid amrywio'r ffurf berthnasol benodedig er mwyn adlewyrchu'r newid hwnnw.

(3) Caiff awdurdodau gorfodi gynnwys gwybodaeth ar ffurfiau hysbysiad o gosb o ran y dull talu neu i hwyluso prosesu'r ffurflenni'n ariannol ac yn weinyddol a chaiff gynnwys ar y ffurflenni arfbeisiau, logos neu ddyfeisiadau eraill i gynrychioli'r awdurdod.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(5).

9 Mawrth 2007

Rhodri Morgan
Prif Wenidog Cymru

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

YR ATODLEN

Rheoliad 9(1)

Ffurfiâu ar Hysbysiad o Gosb

Ffurfiâu ar Hysbysiad o Gosb

Ffurflen 1-Methu ag arddangos arwyddion dim ysmegu rhagnodedig neu methu ag arddangos arwyddion dim ysmegu mewn dull rhagnodedig.

Penalty Notice Forms

Form 1-Failing to display prescribed no-smoking signs or failing to display no-smoking signs in a prescribed manner.

[ENW'R AWDURDOD GORFODI]
[CYFEIRIAD YR AWDURDOD GORFODI]

[NAME OF ENFORCEMENT AUTHORITY]
[ADDRESS OF ENFORCEMENT AUTHORITY]

DEDDF IECHYD 2006:
ADRAN 6 (METHU AG ARDDANGOS ARWYDDION
DIM YSMYGU YN UNOL Â GOFYNION A WNAED
GAN ADRAN 6 NEU ODDI TANI)

HEALTH ACT 2006:
SECTION 6 (FAILURE TO DISPLAY NO-SMOKING
SIGNS IN ACCORDANCE WITH REQUIREMENTS
MADE BY OR UNDER SECTION 6)

HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG

FIXED PENALTY NOTICE

SWM Y GOSB BENODEDIG £200

PENALTY AMOUNT £200

RHAN 1: COP'I'R SAWL SY'N
DERBYN YR HYSBYSIAD

PART 1: RECIPIENT COPY

Rhif yr Hysbysiad o Gosb

Penalty Notice number

Enw llawn y tramgwyddwr honedig

Full name of alleged offender

Cyfeiriad y tramgwyddwr honedig

Address of alleged offender

Cod post

Post code

Dyddiad geni (dd/mm/yyyy)

Date of birth (dd/mm/yyyy)

Rhyw

Gwryw ☐ Male

Sex

Benyw ☐ Female

Mae gennyf i,

I,

, un o swyddogion awdurdodedig
[enw'r awdurdod gorfodi]

, an authorised officer of the [name of
enforcement authority]

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

o dan Adran 9 o Ddeddf Iechyd 2006, reswm dros gredu eich bod wedi tramgwyddo o dan Adran 6 o Ddeddf Iechyd 2006 (methu ag arddangos arwyddion dim ysmegu yn unol â gofynion a wnaed gan Adran 6 neu oddi tani) mewn mangre, man neu gerbyd y mae gan [enw'r awdurdod gorfodi] gyfrifoldebau gorfodi drosti neu drosto.

under section 9 of the Health Act 2006, have reason to believe that you committed an offence under Section 6 of the Health Act 2006 (failure to display no-smoking signs in accordance with requirements made by or under section 6) in a premises, place or vehicle in respect of which [name of enforcement authority] has enforcement responsibilities.

Yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn dramgwydd yw eich bod, am (amser (24:00))

The circumstances alleged to constitute the offence are that at (time (24:00))

o'r gloch, ar (dyddiad (dd/mm/yyyy))

hours, on (date (dd/mm/yyyy))

/ /

yn y fangre, man neu gerbyd a ganlyn (lle y digwyddodd y tramgwydd, gan gynnwys y cyfeiriad)

You, at/on the following premises, place or vehicle (where alleged offence took place, including address)

sef mangre, man neu gerbyd yr honnir bod darpariaethau Adran 6 o Ddeddf Iechyd 2006 yn gymwys iddi neu iddo (manyllion y tramgwydd)

Being premises, a place or vehicle to which the provisions of Section 6 of the Health Act 2006 applies allegedly (details of offence)

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi i chi'r cyfle i fodloni unrhyw atebolrwydd am gollfarn am y tramgwydd hwnnw drwy dalu cosb benodedig o **£200 (dau gan punt)**. Ni fydd camau yn cael eu cymryd ynghylch y tramgwydd hwn cyn pen 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn. Ni fyddwch yn agored i'ch collfarnu am y tramgwydd os byddwch yn talu'r gosb benodedig yn ystod y cyfnod o 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn.

This notice offers you the opportunity of discharging any liability for conviction for that offence by payment of a fixed penalty of **£200 (two hundred pounds)**. No proceedings will be taken for this offence before the expiration of 29 days following the date of this Notice. You will not be liable to conviction for the offence if you pay the fixed penalty during the period of 29 days from the date of this notice.

Gallwch dalu swm gostyngedig o £150 (cant a hanner o bunnoedd) os byddwch yn talu o fewn 15 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

You can pay a discounted amount of £150 (one hundred and fifty pounds) if you pay within 15 days from the date of this Notice.

Ceir gwybodaeth at sylw prydlon y person y dyroddir yr hysbysiad hwn o gosb iddo yn Rhan 2 o'r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i dalu'r gosb benodedig hon yn Rhan 3 o'r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i ofyn am wrandawriad llys mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig hwn yn Rhan 4 o'r hysbysiad hwn.

Information for the immediate attention of the person issued this penalty notice is at Part 2 of this notice. Details about how to pay this fixed penalty is at Part 3 of this notice. Details about how to request a court hearing in relation to this alleged offence is at Part 4 of this notice.

Llofnod y swyddog awdurdodedig

Signature of authorised officer

Dyddiad dyroddi (dd/mm/yyyy)

Date of issue (dd/mm/yyyy)

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

RHAN 2

GWYBODAETH AT SYLW PRYDLON Y PERSON Y DYRODDIR YR HYSBYSIAD HWN O GOSB IDDO:

Yr ydych wedi derbyn yr hysbysiad hwn oherwydd bod gan swyddog awdurdodedig [enw'r awdurdod gorfodi] a enwir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn reswm dros gredu eich bod wedi tramgwyddo drwy fethu ag arddangos arwyddion dim ysmegu yn unol â gofynion a wnaed gan Adran 6 neu oddi tani fel a ddisgrifir yn Rhan 1. O fewn 29 o ddiwrnodau ar ôl **dyddiad dyroddi'r** hysbysiad hwn, **rhaid i chi naill ai dalu'r gosb neu ofyn am wrandawriad i'r mater gerbron y llys**. Ni chaniateir i chi wneud y ddau beth.

Os byddwch yn methu â gwneud yr un o'r ddau beth, caiff [enw'r awdurdod gorfodi], ac yntau'n awdurdod gorfodi yn rhinwedd Adran 10 o Ddeddf Iechyd 2006, ddwyn y mater gerbron y llys. Bydd person a geir yn euog o'r tramgwydd o fethu ag arddangos arwyddion dim ysmegu yn unol â gofynion a wnaed gan adran 6 neu oddi tani yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol, fel a bennir yn Rheoliadau Di-fwg (Cosbau a Symiau Gostyngedig) 2007.

PART 2

INFORMATION FOR THE IMMEDIATE ATTENTION OF THE PERSON ISSUED WITH THIS PENALTY NOTICE:

You have received this notice because the authorised officer of [name of enforcement authority] named in Part 1 of this notice has reason to believe that you have committed the offence of failing to display no-smoking signs in accordance with requirements made by or under section 6 as described in Part 1. Within 29 days of the **date of issue** of this notice, you **must either** pay the penalty **or** request that the matter be heard by a court. You may not do both.

If you fail to do either, [name of enforcement authority] as an enforcement authority by virtue of section 10 of the Health Act 2006, may pursue this matter in court. A person found guilty of the offence of failing to display no-smoking signs in accordance with requirements made by or under section 6 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale, as specified in the Smoke-free (Penalties and Discounted Amounts) Regulations 2007.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

RHAN 3

TALU'R GOSB

Swm y gosb benodedig yw **£200 (dau gan punt)**, y mae'n rhaid ei dalu o fewn 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad dyroddi'r hysbysiad hwn, fel a welir yn Rhan 1.

Gallwch dalu swm gostyngedig o **£150 (cant a hanner o bunnoedd)** os byddwch yn talu o fewn 15 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad dyroddi'r hysbysiad hwn, fel a welir yn Rhan 1.

Os byddwch yn dewis talu'r gosb hon, ni chwymerir camau pellach mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn o gosb. Nid yw talu'r gosb yn golygu eich bod yn cyfadddef eich bod yn euog ac ni fydd yn arwain at gofnod o gollfiam droseddol yn eich erbyn.

Caniateir talu drwy lenwi Rhan 3A isod a dychwelyd Rhan 3A ynghyd â'ch taliad i'r cyfeiriad a nodir yn Ran 3A, neu drwy lenwi Rhan 3A isod a thalu'n bersonol yn [enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi]. Mae arian parod, siec, archeb bost neu archeb arian yn ddulliau derbyniol o dalu.

Dylid gwneud sieciau, archebion post neu archebion arian yn daladwy i [enw'r awdurdod gorfodi]. Os dewiswch dalu'r gosb hon mewn arian parod drwy'r post, rhaid ei anfon drwy'r post cofrestredig, a rhaid cadw prawf o fod wedi'i bostio. Os bydd amnoch angen derbynneb am dalu'r gosb, rhaid i chi ofyn amdani pan fyddwch yn talu, ac os byddwch yn talu drwy'r post rhaid i chi ddarparu amlen ac arni stamp a'ch cyfeiriad chi eich hun.

RHYBUDD: NI DDERBYNNIR TALIAD HWYR. NID ANFONIR NODYN I'CH ATGOFFA.

PART 3

PAYING THE PENALTY

The amount of the fixed penalty is **£200 (two hundred pounds)**, which must be paid within 29 days of the date of issue of this notice, as shown in Part 1.

You can pay a discounted amount of **£150 (one hundred and fifty pounds)** if you pay within 15 days of the date of issue of this notice, as shown in Part 1.

If you choose to pay this penalty, no further action will be taken in respect to the alleged offence described at Part 1 of this penalty notice. The payment of the penalty involves no admission of guilt and will not result in a record of criminal conviction being made against you.

Payment may be made by completing Part 3A below and returning Part 3A with payment to the address stated in Part 3A, or by completing Part 3A below and paying in person at the [name and address of enforcement authority]. Acceptable methods of payment are cash, cheque, postal order or money order.

Cheques, postal orders or money orders should be made payable to [name of enforcement authority]. If you choose to pay this penalty in cash by post, this must be sent by registered post, and a proof of posting must be retained. If you require a receipt for the payment of the penalty, you must ask for one at the time of payment, and if paying by post you must provide a stamped, self-addressed envelope.

WARNING: LATE PAYMENT WILL NOT BE ACCEPTED. YOU WILL NOT BE SENT A REMINDER.

.....

RHAN 3A

TALU COSB BENODEDIG A DDYRODDIR O DAN DDEDDF IECHYD 2006, ADRAN 6 (METHU AG ARDDANGOS ARWYDDION DIM YSMYGU YN UNOLÂ GOFYNION A WNAED GAN ADRAN 6 NEU ODDI TANI)

Rhaid angáu'r slip hwn gyda phob taliad

At

[Enw'r awdurdod gorfodi a'r cyfeiriad yr y dylid anfon y taliad iddo].

Rhif yr Hysbysiad o Gosb

PART 3A

PAYMENT OF FIXED PENALTY ISSUED UNDER HEALTH ACT 2006, SECTION 6 (FAILURE TO DISPLAY NO-SMOKING SIGNS IN ACCORDANCE WITH REQUIREMENTS MADE BY OR UNDER SECTION 6)

This slip must accompany all payments

To

[Name and address at enforcement authority where payment should be remitted].

Penalty Notice number

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Yr wyf yn amgáu'r swm o (ticiwch y naill ffwch neu'r llall)

I enclose the amount of (tick one box)

(os daw'r taliad i law o fewn 15 o ddiwrnodau ar ôl dyroddi'r hysbysiad hwn o gosb)

☐ £150

(if payment will be received within 15 days of the issue of this penalty notice)

(os daw'r taliad i law o fewn 29 o ddiwrnodau ar ôl dyroddi'r hysbysiad hwn o gosb)

☐ £200

(if payment will be received within 29 days of the issue of this penalty notice)

Enw llawn

Full name

Cyfeiriad

Address

Cod post

Post code

Llofnod

Signature

Dyddiad (dd/mm/bbbb)

Date (dd/mm/yyyy)

RHAN 4

PART 4

GOFYN AM WRANDAWIAD LLYS

REQUESTING A COURT HEARING

Os byddwch yn dymuno herio dyroddi'r hysbysiad hwn o gosb a chael gwrandawriad i'ch achos gerbron llys bam **rhaid i chi** lenwi Rhan 4A isod yn llawn a'i dychwelyd drwy'r post i'r cyfeiriad a nodir yn Rhan 4A o fewn 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad dyroddi'r hysbysiad hwn. Mae rhaid i chi gynnwys cyfeiriad lle y gellir cyflwyno gwŷs i chi. Bydd y wŷs yn rhoi gwybod i chi pryd i fynd i'r llys ac ym mhle y mae'r llys. Dim ond y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad hwn o gosb (y person a enwir yn Rhan 1) a gaiiff ofyn am wrandawriad llys.

If you wish to contest the issue of this penalty notice and have your case heard in a court of law you must complete Part 4A below in full and return it by post to the address stated on Part 4A within 29 days of the date of issue of this notice. You must include an address at which a summons can be served on you. The summons will tell you when and where to attend court. Only the recipient of this penalty notice (the person named at Part 1) may request a court hearing.

I

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau eraill ynghylch yr hysbysiad hwn o gosb, cysylltwch os gwelwch yn dda â/ag[enw'r awdurdod gorfodi a manylion cyswllt].

If you have any other questions about this penalty notice, please contact [name of enforcement authority and contact details].

✂

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

RHAN 4A

PART 4A

**CAIS AM I LYS BARN YMDRIN Â'R TRAMGWYDD
HONEDIG**

**REQUEST FOR ALLEGED OFFENCE TO BE DEALT
WITH BY A COURT OF LAW**

At

To

[Enw'r awdurdod gorfodi a'r cyfeiriad y
dylid anfon Rhan 4A iddo].

[Name and address at enforcement
authority to which Part 4A should be sent].

Rhif yr Hysbysiad o Gosb

Penalty Notice number

Yr wyf yn dymuno i lys barn ymdrin â mi mewn cysylltiad â'r
tramgwydd honedig a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn.

I wish to be dealt with by a court of law for the alleged offence
described in Part 1 of this notice.

Enw llawn

Full name

Cyfeiriad

Address

Cod post

Post code

Llofnod

Signature

Dyddiad (dd/mm/bbbb)

Date (dd/mm/yyyy)

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Ffurflen 2-Ysmygu mewn man di-fwg.

Form 2-Smoking in a smoke-free place.

[ENW'R AWDURDOD GORFODI]
[CYFEIRIAD YR AWDURDOD GORFODI]

[NAME OF ENFORCEMENT AUTHORITY]
[ADDRESS OF ENFORCEMENT AUTHORITY]

DEDDF IECHYD 2006:
ADRAN 7 (Y TRAMGWYDD O YSMYGU MEWN MAN
DI-FWG)

HEALTH ACT 2006: SECTION 7 (OFFENCE OF
SMOKING IN A SMOKE-FREE PLACE)

HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG

FIXED PENALTY NOTICE

SWM Y GOSB BENODEDIG £50

PENALTY AMOUNT £50

RHAN 1: COPI'R SAWL SY'N DERBYN YR
HYSBYSIAD

PART 1: RECIPIENT COPY

Rhif yr Hysbysiad o Gosb

Penalty Notice number

Enw llawn y tramgyddwr honedig

Full name of alleged offender

Cyfeiriad y tramgyddwr honedig

Address of alleged offender

Cod post

Post code

Dyddiad geni (dd/mm/yyyy)

Date of birth (dd/mm/yyyy)

Rhyw

Gwryw ☐ Male

Sex

Benyw ☐ Female

Mae gennyf i,

I,

, un o swyddogion awdurdodedig [enw'r
awdurdod gorfodi]

, an authorised officer of the
[name of enforcement authority]

o dan Adran 9 o Ddeddf Iechyd 2006, reswm dros gredu eich bod wedi tramgyddo o dan Adran 7 o Ddeddf Iechyd 2006 (ysmygu mewn man di-fwg) oddi mewn i fangre, i fan neu i gerbyd y mae gan [enw'r awdurdod gorfodi] gyfrifoldebau gorfodi drosti neu drosto. Mae Adran 7(1) yn darparu bod mannau di-fwg yn cynnwys mangreodd di-fwg a cherbydau di-fwg.

under section 9 of the Health Act 2006, have reason to believe that you committed an offence under section 7 of the Health Act 2006 (smoking in a smoke-free place) within a premises, place or vehicle in respect of which [name of enforcement authority] has enforcement responsibilities. Section 7(1) provides that smoke-free places include smoke-free premises and smoke-free vehicles.

Yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn dramgydd yw eich bod, am
(amser (24:00))

The circumstances alleged to constitute the offence are that at (time (24:00))

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

o'r gloch, ar (dyddiad (dd/mm/yyyy))

hours, on (date (dd/mm/yyyy))

yn y fangre, man neu gerbyd a ganlyn
(lle y digwyddodd y tramgwydd, gan
gynnwys y cyfeiriad)

You, at/on the following premises, place or
vehicle (where alleged offence took place,
including address)

sef mangre, man neu gerbyd yr honnir bod
darpariaethau Adran 7 o Ddeddf Iechyd
2006 yn gymwys iddi neu iddo (manylion
y tramgwydd)

Being premises, a place or vehicle to which
the provisions of Section 7 of the Health Act
2006 applies allegedly (details of offence)

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi i chi'r cyfle i fodloni unrhyw atebolrwydd am gollfam am y tramgwydd hwnnw drwy dalu cosb benodedig o £50 (hanner can punt). Ni fydd camau yn cael eu cymryd ynghylch y tramgwydd hwn cyn pen 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn. Ni fyddwch yn agored i'ch collfamu am y tramgwydd os byddwch yn talu'r gosb benodedig yn ystod y cyfnod o 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn.

This notice offers you the opportunity of discharging any liability for conviction for that offence by payment of a fixed penalty of £50 (fifty pounds). No proceedings will be taken for this offence before the expiration of 29 days following the date of this Notice. You will not be liable to conviction for the offence if you pay the fixed penalty during the period of 29 days from the date of this notice.

Gallwch dalu swm gostyngedig o £30 (ddeg punt ar hugain) os byddwch yn talu o fewn 15 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

You can pay a discounted amount of £30 (thirty pounds) if you pay within 15 days from the date of this Notice.

Ceir gwybodaeth at sylw prydlon y person y dyroddir yr hysbysiad hwn o gosb iddo yn Rhan 2 o'r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i dalu'r gosb benodedig hon yn Rhan 3 o'r hysbysiad hwn. Ceir manylion ynghylch sut i ofyn am wrandawriad llys mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig hwn yn Rhan 4 o'r hysbysiad hwn.

Information for the immediate attention of the person issued this penalty notice is at Part 2 of this notice. Details about how to pay this fixed penalty is at Part 3 of this notice. Details about how to request a court hearing in relation to this alleged offence is at Part 4 of this notice.

Llofnod y swyddog awdurdodedig

Signature of authorised officer

Dyddiad dyroddi (dd/mm/yyyy)

Date of issue (dd/mm/yyyy)

RHAN 2

PART 2

GWYBODAETH AT SYLW PRYDLON Y PERSON Y DYRODDIR YR HYSBYSIAD HWN O GOSB IDDO:

INFORMATION FOR THE IMMEDIATE ATTENTION OF THE PERSON ISSUED WITH THIS PENALTY NOTICE:

Yr ydych wedi derbyn yr hysbysiad hwn oherwydd bod gan swyddog awdurdodedig [enw'r awdurdod gorfodi] a enwir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn reswm dros gredu eich bod wedi tramgwyddo drwy ysmygu mewn man di-fwg fel a ddisgrifir yn Rhan 1. O fewn 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad dyroddi'r hysbysiad hwn, rhaid i chi naill ai dalu'r gosb neu ofyn am wrandawriad i'r mater gerbron y llys. Ni chaniateir i chi wneud y ddau beth.

You have received this notice because the authorised officer of [name of enforcement authority] named in Part 1 of this notice has reason to believe that you have committed the offence of smoking in a smoke-free place as described in Part 1. Within 29 days of the date of issue of this notice, you must either pay the penalty or request that the matter be heard by a court. You may not do both.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Os byddwch yn methu â gwneud yr un o'r ddau beth, caiff [enw'r awdurdod gorfodi], ac yntau'n awdurdod gorfodi yn rhinwedd Adran 10 o Ddeddf Iechyd 2006, ddwyn y mater gerbron y llys. Bydd person a geir yn euog o'r tramgwydd o ysmegu mewn man di-fwg yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 1 ar y raddfa safonol, fel a bennir yn Rheoliadau Di-fwg (Cosbau a Symiau Gostyngedig) 2007.

If you fail to do either, [name of enforcement authority] as an enforcement authority by virtue of section 10 of the Health Act 2006, may pursue this matter in court. A person found guilty of the offence of smoking in a smoke-free place is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 1 on the standard scale, as specified in the Smoke-free (Penalties and Discounted Amounts) Regulations 2007.

RHAN 3

TALU'R GOSB

Swm y gosb benodedig yw **£50 (hanner can punt)**, y mae'n rhaid ei dalu o fewn 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad dyroddi'r hysbysiad hwn, fel a welir yn Rhan 1.

Gallwch dalu swm gostyngedig o **£30 (ddeg punt ar hugain)** os byddwch yn talu o fewn 15 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad dyroddi'r hysbysiad hwn, fel a welir yn Rhan 1.

Os byddwch yn dewis talu'r gosb hon, ni chwymerir camau pellach mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn o gosb. Nid yw talu'r gosb yn golygu eich bod yn cyfaddef eich bod yn euog ac ni fydd yn arwain at gofnod o gollfarn droseddol yn eich erbyn.

Caniateir talu drwy lenwi Rhan 3A isod a dychwelyd Rhan 3A ynghyd â'ch taliad i'r cyfeiriad a nodir yn Rhan 3A, neu drwy lenwi Rhan 3A isod a thalu'n bersonol yn [enw a chyfeiriad yr awdurdod gorfodi]. Mae arian parod, siec, archeb bost neu archeb arian yn ddulliau derbyniol o dalu.

Dylid gwneud sieciau, archebion post neu archebion arian yn daladwy i [enw'r awdurdod gorfodi]. Os dewiswch dalu'r gosb hon mewn arian parod drwy'r post, rhaid ei anfon drwy'r post cofrestredig, a rhaid cadw prawf o fod wedi'i bostio. Os bydd amnoch angen derbynneb am dalu'r gosb, rhaid i chi ofyn amdani pan fyddwch yn talu, ac os byddwch yn talu drwy'r post rhaid i chi ddarparu amlen ac ami stamp a'ch cyfeiriad chi eich hun.

RHYBUDD: NI DDERBYNNIR TALIAD HWYR. NID ANFONIR NODYN I'CH ATGOFFA.

PART 3

PAYING THE PENALTY

The amount of the fixed penalty is **£50 (fifty pounds)**, which must be paid within 29 days of the date of issue of this notice, as shown in Part 1.

You can pay a discounted amount of **£30 (thirty pounds)** if you pay within 15 days of the date of issue of this notice, as shown in Part 1.

If you choose to pay this penalty, no further action will be taken in respect to the alleged offence described at Part 1 of this penalty notice. The payment of the penalty involves no admission of guilt and will not result in a record of criminal conviction being made against you.

Payment may be made by completing Part 3A below and returning Part 3A with payment to the address stated in Part 3A, or by completing Part 3A below and paying in person at the [name and address of enforcement authority]. Acceptable methods of payment are cash, cheque, postal order or money order.

Cheques, postal orders or money orders should be made payable to [name of enforcement authority]. If you choose to pay this penalty in cash by post, this must be sent by registered post, and a proof of posting must be retained. If you require a receipt for the payment of the penalty, you must ask for one at the time of payment, and if paying by post you must provide a stamped, self-addressed envelope.

WARNING: LATE PAYMENT WILL NOT BE ACCEPTED. YOU WILL NOT BE SENT A REMINDER.

✍

RHAN 3A

TALU COSB BENODEDIG A DDYRODDIR O DAN DDEDDF IECHYD 2006, ADUAN 7 (Y TRAMGWYDD O YSMYGU MEWN MAN DI-FWG)

Rhaid angáu'r slip hwn gyda phob taliad

At

[Enw'r awdurdod gorfodi a'r cyfeiriad y dylid anfon y taliad iddo].

Rhif yr Hysbysiad o Gosb

PART 3A

PAYMENT OF FIXED PENALTY ISSUED UNDER HEALTH ACT 2006, SECTION 7 (OFFENCE OF SMOKING IN A SMOKE-FREE PLACE)

This slip must accompany all payments

To

[Name and address at enforcement authority where payment should be sent].

Penalty Notice number

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Yr wyf yn amgáu'r swm o (ticiwch y naill
fthwch neu'r llall)

I enclose the amount of (tick one box)

(os daw'r taliad i law o fewn 15
o ddiwrnodau ar ôl dyroddi'r hysbysiad
hwn o gosb)

☐ £30

(if payment will be received within 15
days of the issue of this penalty notice)

(os daw'r taliad i law o fewn 29 o
ddiwrnodau ar ôl dyroddi'r hysb
ysiad hwn o gosb)

☐ £50

(if payment will be received within 29
days of the issue of this penalty notice)

Enw llawn

Full name

Cyfeiriad

Address

Cod post

Post code

Llofnod

Signature

Dyddiad (dd/mm/bbbb)

Date (dd/mm/yyyy)

RHAN 4

PART 4

GOFYN AM WRANDAWIAD LLYS

REQUESTING A COURT HEARING

Os byddwch yn dymuno herio dyroddi'r hysbysiad hwn o gosb a chael gwrandawriad i'ch achos gerbron llys barn **rhaid i chi** lenwi Rhan 4A isod yn llawn a'i dychwelyd drwy'r post i'r cyfeiriad a nodir yn Rhan 4A o fewn 29 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad dyroddi'r hysbysiad hwn. Mae rhaid i chi gynnwys cyfeiriad lle y gellir cyflwyno gwŷs i chi. Bydd y wŷs yn rhoi gwybod i chi pryd i fynd i'r llys ac ym mhle y mae'r llys. Dim ond y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad hwn o gosb (y person a enwir yn Rhan 1) a gaiff ofyn am wrandawriad llys.

If you wish to contest the issue of this penalty notice and have your case heard in a court of law you must complete Part 4A below in full and return it by post to the address stated on Part 4A within 29 days of the date of issue of this notice. You must include an address at which a summons can be served on you. The summons will tell you when and where to attend court. Only the recipient of this penalty notice (the person named at Part 1) may request a court hearing.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau eraill ynghylch yr hysbysiad hwn o gosb, cysylltwch os gwelwch yn dda â/ag[enw'r awdurdod gorfodi a manylion cyswllt].

If you have any other questions about this penalty notice, please contact [name of enforcement authority and contact details].

✂

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

RHAN 4A**PART 4A****CAIS AM I LYS BARN YMDRIN Â'R TRAMGWYDD HONEDIG****REQUEST FOR ALLEGED OFFENCE TO BE DEALT WITH BY A COURT OF LAW**

At

To

[Enw'r awdurdod gorfodi a'r cyfeiriad y dylid arfon Rhan 4 iddo].

[Name and address at enforcement authority to which Part 4A should be sent].

Rhif yr Hysbysiad o Gosb**Penalty Notice number**

Yr wyf yn dymuno i lys barn ymdrin â mi mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r hysbysiad hwn.

I wish to be dealt with by a court of law for the alleged offence described in part 1 of this notice.

Enw llawn**Full name****Cyfeiriad****Address****Cod post****Post code****Llofnod****Signature****Dyddiad (dd/mm/yyyy)****Date (dd/mm/yyyy)****EXPLANATORY NOTE**

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch gwahardd ysmygu mewn mangreoedd a cherbydau penodol yn unol â phwerau sydd ym Mhennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Iechyd 2006 ("y Ddeddf").

O ran mangreoedd maent yn pennu, yn rheoliad 2, ystyr "caeedig" a "sylweddol gaeedig" at ddibenion adran 2 o'r Ddeddf, sy'n darparu bod mangre yn ddi-fwg yn y manau hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig yn unig.

Maent yn pennu disgrifiadau o fangreoedd nad ydynt yn ddi-fwg ac yn pennu amgylchiadau ac amodau ac adegau pan nad yw mangreoedd penodol neu fannau penodol mewn mangreoedd yn ddi-fwg (rheoliad 3).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer disgrifiadau o gerbydau a'r amgylchiadau pan fydd y cyfryw gerbydau i fod yn ddi-fwg (rheoliad 4).

Mae rheoliadau 5 a 6 yn rhagnodi'r gofynion ar gyfer cynnwys ac arddangos arwyddion dim ysmegu mewn mangreoedd a cherbydau. Maent hefyd yn gosod dyletswydd i arddangos arwyddion mewn cerbydau perthnasol ar weithredwyr, gyrwyr a phersonau sy'n gyfrifol am drefn neu ddiogelwch ar y cyfryw gerbydau.

Mae rheoliad 7 yn gosod dyletswydd ar y cyfryw weithredwyr, gyrwyr a phersonau sy'n gyfrifol am ddiogelwch neu drefn i beri bod personau sy'n ysmegu mewn cerbydau di-fwg yn stopio ysmegu.

Mae rheoliad 8 yn dynodi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn awdurdodau gorfodi ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb rhwng awdurdodau gorfodi.

Mae rheoliad 9 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau sy'n cynnwys ffurfiau hysbysiadau o gosb sydd i'w defnyddio gan awdurdodau gorfodi.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd o ddrafft o'r Rheoliadau yn unol ag Erthygl 8 o'r Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 98/34/EC sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol a rheolau gwasanaethau y Gymdeithas Wybodaeth (OJ Rhif L204, 21.7.1998, t.37), fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 98/48/EC (OJ Rhif L217, 5.8.1998, t.18).